Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dyfodol byd-eang: blwyddyn gyntaf ein cynllun

# Adroddiad blynyddol

Rhagfyr 2016



# Dyfodol byd-eang: blwyddyn gyntaf ein cynllun

**Cynulleidfa**

Ysgolion cynradd; ysgolion canol; ysgolion uwchradd; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; consortia rhanbarthol; partneriaid cenedlaethol; Estyn; undebau'r athrawon; cyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â'r maes addysg; ac aelodau'r cyhoedd.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma i gyflawni amcanion *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*; a dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: CurriculumCorrespond@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru

**Dogfennau cysylltiedig**

*Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020* (2015)

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29642 ISBN digidol 978 1 4734 7588 5

# Cynnwys


Rhagair y Gweinidog 2

Cyflwyniad 3

Ein hamcanion 3

Cynnydd ar ôl blwyddyn 4

Cam strategol 1 5

Cam strategol 2 7

Cam strategol 3 10

Beth yw ein camau gweithredu allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf? 12

Effaith a chwmpas y gweithgareddau 14

Atodiad 15

# Rhagair y Gweinidog

Mae dysgu ieithoedd o fantais i'r dinesydd, i'n cymunedau ac i Gymru fel gwlad hyderus sy'n edrych tuag allan.

Yn ogystal â rhoi sgiliau ieithyddol ychwanegol i'n pobl ifanc, mae hefyd yn rhoi addysg a gwybodaeth ddiwylliannol iddynt na fyddent wedi'u cael fel arall.

Mae hefyd yn rhoi golwg newydd ar draddodiadau a chymdeithas gyfoes gwledydd eraill, ac yn gyfle i ddysgu mwy am ein gwlad a'n cymunedau ein hunain. Ni fu hyn erioed yn fwy pwysig nag yn ein sefyllfa heriol bresennol.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*.

Datblygwyd Dyfodol Byd-eang ar y cyd â phartneriaid allweddol o'r sector addysg. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu mynd ati ar y cyd i gyflawni ein gweledigaeth o sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn dod yn ddinesydd byd-eang sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.

Ers cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, rwyf wedi cefnogi'r weledigaeth hon ac rwy'n falch bod adroddiad blwyddyn gyntaf y cynllun yn dangos ymrwymiad i wella agweddau at ddysgu ieithoedd, a hefyd gwella cyrhaeddiad a chynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd yng Nghymru. Er bod y cynllun ond wedi bod ar waith ers blwyddyn, rydym wedi llwyddo i gyflawni'r canlynol drwy Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang:

- pennu addysgu a dysgu ieithoedd fel blaenoriaeth yng Nghymru
- cynyddu'r gweithgarwch a'r ymgysylltu ag ysgolion a'r proffesiwn addysgu ieithoedd tramor modern
- cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y consortia addysg rhanbarthol a'r sefydliadau iaith.

Er bod llawer ar ôl i'w wneud er mwyn cyflawni ein hamcanion, dyma gynllun pum mlynedd ac mae'r adroddiad yn dangos bod y sylfeini'n cael eu gosod er mwyn sicrhau ein bod yn gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern yn y blynyddoedd i ddod. Rydym angen ymrwymiad ac uchelgais o bob rhan o'r system addysg i gyflawni hyn. Rwy'n hyderus y gallwn, drwy gydweithio, symud ymlaen fel gwlad 'dwyieithog a mwy'.





**Kirsty Williams AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

# Cyflwyniad

Dyfodol Byd-eang yw ein strategaeth hirdymor i annog dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy fod yn 'ddwyieithog a mwy'; hynny yw drwy astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith dramor fodern o oed cynradd i lefel arholiad.

Lluniwyd y cynllun pum mlynedd mewn ymateb i'r lleihad a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar Lefelau 2 a 3 (TGAU a Safon Uwch) ac mewn addysg uwch ledled Cymru. Mae'n nodi ein hamcanion allweddol a strategaeth i wrthdroi'r patrwm hwn.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y tri amcan strategol. Yn yr atodiad, ceir crynodeb o'r gweithgareddau allweddol a wnaed gan y pedwar consortia addysg rhanbarthol: Consortiwm Canolbarth y De, ERW, EAS a GwE.

## Ein hamcanion

Mae cynllun Dyfodol Byd-eang yn nodi ein hamcanion ar gyfer hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru. Y tri amcan yw:

1. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar Lefel 2 (lefel TGAU neu gyfatebol), Lefel 3 (Safon Uwch neu gyfatebol) ac ar lefel addysg uwch

2. Gwella system addysgu ieithoedd tramor modern i ddysgwyr 7–19 oed a gwella'r profiad dysgu, gyda'r bwriad o ddatblygu system 'dwyieithog a mwy' lle bydd iaith dramor fodern yn dechrau cael ei haddysgu'n ffurfiol ym Mlwyddyn 5 fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iaith, llythrennedd a chyfathrebu

3. Cynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn ieithoedd tramor modern a'u gwella.

## Cynnydd ar ôl blwyddyn

Mae Dyfodol Byd-eang wedi darparu strwythur a ffocws cenedlaethol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor modern. I gyflawni ein hamcanion, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan fanteisio ar eu gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad o ran cefnogi athrawon a dysgwyr. Mae Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang yn cyfarfod bob tymor i fonitro'r modd y mae'r cynllun yn cael ei gyflawni ac i gefnogi'r gwaith hwnnw. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan Mr Glynn Downs, Pennaeth Ieithoedd yn Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Caerdydd. O ganlyniad, mae gennym bartneriaeth genedlaethol o ysgolion, consortia addysg rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau iaith sy'n cydweithio i hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd yng Nghymru.

Mae'r cynllun a'r amcanion yn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad newydd a fydd yn rhan ohono. Yn ogystal â sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyd-fynd â'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd ar gyfer Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mae'r rhaglen waith o dan Dyfodol Byd-eang wedi'i chysylltu â thri gweithgaredd cwricwlaidd trawsbynciol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

## Cam strategol 1

Gwnaethom ymrwymo i 'hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2 (TGAU), ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at gyfleoedd gyrfa cyffrous a gwerthfawr'.

Drwy bartneriaeth Dyfodol Byd-eang o ysgolion a cholegau, consortia addysg rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau iaith, gwelwyd mwy o gefnogaeth ar gyfer ieithoedd a hyrwyddo ieithoedd fel cyfle i bobl ifanc gamu ymlaen sy'n cynnig cyfleoedd o ran gyrfa. Gyda'n gilydd, rydym wedi rhoi'r canlynol ar waith:

**Cynllun mentora ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3**

- Ym mis Tachwedd 2015, lansiwyd cynllun mentora israddedigion ieithoedd tramor modern mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor. Mae'r cynllun peilot yn sicrhau bod israddedigion yn cael hyfforddiant arbenigol i weithredu fel mentoriaid er mwyn helpu ac ysbrydoli disgyblion Cyfnod Allweddol 3 i ddewis astudio o leiaf un iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 4 (TGAU). Yn ystod naw mis cyntaf y cynllun peilot 18 mis, cafodd 28 o ysgolion eu partneru â 32 o fentoriaid prifysgol ar gyfer pum wythnos o weithgarwch mentora dwys. Mae'r broses recriwtio bresennol ar gyfer y garfan o fentoriaid prifysgol y flwyddyn nesaf yn dangos bod nifer y ceisiadau wedi dyblu. Mae ffilm werthusol fer yn rhoi asesiad ansoddol o'r prosiect hyd yn hyn: https://www.youtube.com/watch?v=z436D6X_rS8.

- Yn ôl adroddiad y gwerthuswr allanol o garfan y flwyddyn gyntaf, mae'r cynllun mentora nid yn unig yn cael effaith ar y disgyblion penodol sy'n cael eu targedu, ond hefyd ar garfannau cyfan yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Nododd 13 o'r 21 o ysgolion sy'n cymryd rhan fod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion yn eu dosbarthiadau TGAU sy'n dechrau ym mis Medi 2016, gan gynnwys un ysgol lle mae ieithoedd tramor modern yn cael eu cynnig fel dewis TGAU am y tro cyntaf ers tair blynedd.

**Adnoddau ieithyddol Ewros 2016 Cymdeithas Bêl-droed Cymru**

- Ar y cyd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, Clwb Dwbl Arsenal, y Comisiwn Ewropeaidd, y British Council a sefydliadau iaith, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnoddau dysgu ieithoedd ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 fel rhan o ddathliadau cystadleuaeth Ewro 2016. Cafodd yr adnoddau eu lansio gyda thîm pêl-droed Cymru ym mis Mawrth 2016. Nod y rhaglen oedd ysbrydoli a chymell disgyblion, a defnyddio'r thema bêl-droed i ddangos i ddisgyblion bod modd mynd ati i ddysgu ieithoedd a bod gwneud hynny'n werth chweil ac yn hwyl. Mae'r adnoddau ar gael yn ddwyieithog ac ar Hwb mewn sawl iaith – Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Phortiwgaleg. Mae fersiwn Gymraeg ar gael hefyd i gefnogi'r broses o ddysgu Cymraeg. Mae'r adnoddau ar gael am ddim i bob ysgol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan ysgolion, gyda 17,000 o ymweliadau â Hwb hyd yma.

**Cynllun Llysgenhadon Iaith a Digwyddiadau Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith**

- Sefydlwyd partneriaeth rhwng ERW, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe ym Mhrifysgol Abertawe, i hyfforddi myfyrwyr i fod yn llysgenhadon iaith mewn ysgolion. Rôl Disgybl sy'n Llysgennad Iaith yw annog disgyblion eraill i ddysgu neu barhau i ddysgu iaith dramor fodern. Bu'r bartneriaeth yn llwyddiant a chafwyd adborth gadarnhaol gan athrawon a disgyblion. Bydd ERW yn sefydlu'r un bartneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn y flwyddyn academaidd nesaf.

- Mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru, mewn partneriaeth â'r consortia addysg rhanbarthol, wedi trefnu pedwar digwyddiad hyfforddi Disgybl sy'n Llysgennad Iaith ar draws Cymru. Mae'r cynllun yn parhau i dyfu. Er enghraifft, mae 15 o ysgolion uwchradd eraill yn rhanbarth GWE yn mynd i'r digwyddiad hyfforddi yn y flwyddyn academaidd nesaf.

- Mae Alliance Française a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen wedi cyfrannu i'r digwyddiadau drwy gynnal gweithdai ar ddiwylliant ac ieithoedd Ffrainc a Sbaen. Drwy gyfrwng y digwyddiadau hyn, mae Llwybrau Cymru a'r British Council wedi cyrraedd dros 400 o ddisgyblion o 83 o wahanol ysgolion yng Nghymru, sy'n gynnydd o 188 y cant yn nifer y disgyblion a hyfforddwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nododd ERW fod y gweithdy wedi bod yn llwyddiant mawr, gan helpu i feithrin capasiti ar gyfer ieithoedd tramor modern ledled y rhanbarth.

**Digwyddiadau ieithoedd tramor modern/STEM**

- Roedd Alliance Française yn rhan o lansiad ffurfiol canolfannau rhagoriaeth Canolbarth y De ac EAS a'r gynhadledd hyrwyddo a drefnwyd gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Yng Nghanolbarth y De, nododd 98 y cant o athrawon fod y gweithdai hyfforddiant iaith a diwylliant a gynhaliwyd gan Alliance Française yn "ardderchog", gyda phob un yn awyddus i weithio gyda'r sefydliad yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf (2016/17). Cyfrannodd Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen at gynnal gweithdy ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern cynradd a phenaethiaid.

- Mae pob un o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol wedi cynnal digwyddiadau i godi proffil ieithoedd tramor modern a rhoi cymorth i'r athrawon hynny sy'n addysgu'r pwnc.

## Cam strategol 2

Gwnaethom ymrwymo i 'feithrin gallu'r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi'r gweithlu i ddatblygu'n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth 'dwyieithog a mwy' drwy Ddatblygu Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a'r rhwydwaith ysgolion arloesi'.

Rydym wedi datblygu cymorth ysgol i ysgol ar gyfer darparu ieithoedd ac wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern.

**Canolfannau rhagoriaeth**

- Mae canolfannau rhagoriaeth (ysgolion ag arferion ieithoedd tramor modern effeithiol) wedi'u sefydlu ym mhob un o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol er mwyn rhoi cymorth ysgol i ysgol i ysgolion cynradd ac uwchradd partner. Mae pob consortiwm hefyd wedi nodi ysgolion arweiniol yn ei ardal ynghyd â chydgysylltydd ieithoedd tramor modern sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen Dyfodol Byd-eang i ysgolion.

**Cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigir gan y consortia**

- Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol i athrawon ieithoedd tramor modern. Hynny drwy gyfrwng gweithdai, y caiff cynnwys a nod pob un eu llywio gan y tri amcan strategol a nodir yng nghynllun Dyfodol Byd-eang. Mae'r gweithdai wedi'u cynnal gan amrywiaeth o bartneriaid iaith gan gynnwys y Canolfannau Rhagoriaeth, Hyrwyddwyr Iaith Busnes, y Sefydliadau Iaith, British Council, Llwybrau at Ieithoedd, partneriaid STEM, prifysgolion a darparwyr HCA.

- Mae'r consortia hefyd wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio a gweithdai Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer penaethiaid adran ac athrawon ieithoedd tramor modern, gan ddarparu cymorth ar gyfer Dysgu Digidol a'r cymhwyster TGAU newydd.

**Prosiect Erasmus+**

- Mae Cyngor Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau arian i gynnal 91 o ymweliadau astudio â gwledydd Ewropeaidd dros gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer athrawon o 21 o ysgolion ledled De Cymru. Nodwyd bod angen i athrawon astudio Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Portiwgaleg, Eidaleg, Tsieceg, Pwyleg, Rwmaneg, Daneg, Islandeg a Ffinneg. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar bum elfen wahanol a fydd yn sicrhau bod anghenion gwahanol y consortia yn cael eu diwallu. Dros gyfnod o ddwy flynedd, bydd athrawon o bob cwr o Gymru yn cymryd rhan mewn rhaglen dysgu ieithoedd gynhwysfawr er mwyn gwella eu cymwyseddau ieithyddol a'u gwybodaeth ddiwylliannol.

**Adnoddau ieithoedd tramor modern newydd**

- Mae amrywiaeth o adnoddau ieithoedd tramor modern wedi'u creu a'u rhannu ar Hwb gan gynnwys deunyddiau ieithoedd tramor modern ar-lein gan Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, adnoddau addysgu a ddatblygwyd gan ganolfannau rhagoriaeth ysgolion, a rhwydweithiau ieithoedd tramor modern rhithwir ar gyfer pob un o'r consortia addysg rhanbarthol. Caiff y themâu ar gyfer yr adnoddau eu cwmpasu yn y pedwar maes sgiliau allweddol ac mae sesiynau penodol ar gael ar eirfa ac asesu.

- Lansiodd BBC Bitesize adnodd ar-lein newydd ar gyfer myfyrwyr TGAU ym mis Medi 2016. Mae'r adnodd newydd yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio TGAU Almaeneg ac mae'n cynnwys canllawiau astudio sy'n cwmpasu pedair thema ym maes sgiliau iaith, ynghyd â darpariaeth fwy o faint ar gyfer adolygu gramadeg, yn cynnwys gwaith animeiddio o ansawdd uchel.

**Sefydliadau iaith**

- Mae sefydliadau iaith wedi darparu hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau i ganolfannau rhagoriaeth ysgolion ac ysgolion partner:

  - Mae Sefydliad Goethe wedi cynnal 20 o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar Almaeneg, gyda 1,800 o ddisgyblion a 320 o athrawon yn bresennol. Cynhaliwyd y digwyddiadau mewn lleoliadau ym mhob un o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol. Hefyd, mae menter rhwydwaith Almaeneg ddigidol newydd, sef 'Smart German', sy'n rhoi arian i rwydweithiau o ysgolion sy'n hyrwyddo Almaeneg mewn ysgolion cynradd, wedi'i chyflwyno gan y consortia: https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/eng/scg.html. Mae'r fenter hon wedi targedu ysgolion yng Nghymru, sydd wedi dod i wybod amdani gyda chymorth y consortia a Llywodraeth Cymru.

  - Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Llysgenhadaeth yr Almaen a Sefydliad Goethe yn Llundain 'Ddiwrnod Almaeneg' llwyddiannus iawn yng Nghaerdydd ar gyfer cynulleidfa o fwy na 200 o athrawon a phartneriaid. Ymhlith uchafbwyntiau'r diwrnod roedd dyfarnu Gwobr fawreddog Athro Almaeneg Llysgenhadaeth yr Almaen, 'Der Sommerfest dêr deutshcen Sprache' a chynhadledd penaethiaid Sefydliad Goethe.

  - Mae Alliance Française de Cardiff a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen wedi gweithio'n agos gyda dau o'r consortia i ddarparu sesiynau hyfforddi i athrawon ieithoedd tramor modern ar y manylebau ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd. Canolbwyntiodd y gweithdai ar roi adnoddau, syniadau a chyfleoedd i athrawon ddiweddaru eu gwybodaeth am y pwnc er mwyn eu helpu i roi manylebau'r arholiad newydd ar waith. Yn ôl athrawon, roedd hi'n dda bod y sesiynau hyn wedi'u cynnal yn Ffrangeg a Sbaeneg gan siaradwyr o'r gwledydd hynny ac roeddent yn darparu adnoddau addysgu perthnasol a defnyddiol am ddim. Nododd 87 y cant o'r athrawon a gymerodd ran fod y sesiynau Sbaeneg yn “ardderchog”

gyda phob un ohonynt yn awyddus i gymryd rhan yn y flwyddyn academaidd nesaf.

**Ieithoedd tramor modern a llythrennedd digidol**

- Mae'r gwaith o ddatblygu llythrennedd digidol mewn dosbarthiadau ieithoedd tramor modern wedi bod yn allweddol o ran gwella hyder ac annibyniaeth disgyblion, ac mae'n cael clod am helpu i wella agweddau tuag at ieithoedd mewn ysgolion. Mae ysgolion arweiniol wedi cymryd rhan mewn cynlluniau peilot gyda'r nod o gyfuno llythrennedd digidol â dysgu ieithoedd tramor modern. Mae'r cynlluniau'n cynnwys defnyddio llechi a thechnoleg arall er mwyn galluogi adrannau ieithoedd tramor modern i gynnwys technoleg ddigidol mewn prosesau addysgu a dysgu. Y nod yw hyrwyddo cymhelliant, mwynhad ac annibyniaeth wrth ddysgu. Mae adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos mwy o ddiddordeb yn yr iaith.

## Cam strategol 3

Gwnaethom ymrwymo i 'gynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr'.

Rydym wedi datblygu dulliau newydd er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr, a fydd yn eu galluogi i brofi ffyrdd gwahanol o astudio ieithoedd. Bydd hyn yn darparu llwybr dysgu mwy cyffrous iddynt. Drwy gynnig amrywiaeth o ieithoedd a dysgu drwy ddulliau gwahanol ac mewn amgylcheddau gwahanol, rydym wedi hyrwyddo dysgu iaith fel dewis hyfyw a chyffrous. Rydym hefyd wedi darparu cyfleoedd ar gyfer ieithoedd drwy ein partneriaid Dyfodol Byd-eang, gan gynnwys y sefydliadau iaith, British Council a Sefydliadau Confucius, sy'n ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd, ennyn mwy o ddiddordeb a gwella cyrhaeddiad.

**Mentrau gyda sefydliadau iaith**

- I hyrwyddo addysgu a dysgu Eidaleg yng Nghymru, mae Swyddfa Is-gennad yr Eidal wedi bod yn darparu athrawon Eidaleg i lawer o ysgolion er mwyn treialu gwersi iaith. Ffocws y gweithgarwch hwn yw ennyn diddordeb dysgwyr a hyrwyddo'r iaith Eidaleg. Mae'r ddarpariaeth hon yn cwmpasu naw ysgol ar hyn o bryd ond bydd yn cael ei ymestyn i dair ysgol arall yn y flwyddyn academaidd hon (2016/17).

- Mae sefydliadau ieithoedd Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg hefyd wedi bod yn ystyried cyfleoedd i sefydlu presenoldeb ffisegol yng Nghymru, a fydd yn eu galluogi i weithio'n agosach ag ysgolion yng Nghymru. Mae gwaith wedi mynd rhagddo i symud hyn yn ei flaen:

    - Mae Alliance Française de Cardiff yn datblygu canolfan ddiwylliannol yng Nghaerdydd gyda'r nod o ymgysylltu â'r sawl sy'n dysgu Ffrangeg a hyrwyddo iaith a diwylliant Ffrainc i ysgolion, plant, oedolion a busnesau. Mae'r Alliance, mewn cydweithrediad ag amryw o bartneriaid, yn helpu ysgolion i godi proffil ieithoedd tramor modern ac yn darparu cyfleoedd i athrawon ddatblygu'n broffesiynol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan ganlynol: www.afcardiff.wales

    - Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddatblygu rhwng Llywodraethau Sbaen a Chymru. Bydd y memorandwm hwn yn golygu y bydd modd cyfathrebu'n well â Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, gyda mwy o gyfnewidfeydd a mwy o adnoddau iaith yn cael eu rhannu rhwng y ddwy wlad. Er mwyn cefnogi'r memorandwm hwn, mae Prifysgol Caerdydd a Swyddfa'r Is-gennad wedi sefydlu partneriaeth ffurfiol gyda'r nod o hyrwyddo a chynnal gweithgareddau amrywiol ym maes addysg sy'n ymwneud ag ehangu'r iaith Sbaeneg a diwylliant Sbaen yng Nghymru, gan gynnwys amcanion cynllun Dyfodol Byd-eang.

  - Mae Sefydliad Goethe hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i lunio cytundeb a fydd yn ffurfioli eu cydberthynas waith.

**Prosiect cerddoriaeth ac ieithoedd y British Council**

- Mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi dyfarnu grant o £110,000 i British Council Cymru i ddatblygu ffyrdd newydd o ddysgu cerddoriaeth ac iaith. Bydd y grant hwn yn galluogi'r consortiwm i helpu 10 ysgol gynradd yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i ystyried sut y gall dulliau sy'n seiliedig ar gerddoriaeth wella'r modd y caiff ieithoedd eu haddysgu, yn enwedig Sbaeneg. Bydd y consortiwm hefyd yn archwilio sut y gall dysgu yn seiliedig ar y celfyddydau helpu plant i bontio'n gadarnhaol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

**Mandarin yng Nghymru**

- Mae Sefydliad Confucius wedi parhau i hyrwyddo a chodi proffil dysgu Mandarin. Cynyddodd nifer y disgyblion a oedd yn dysgu Mandarin yng Nghymru o 1,370 yn y flwyddyn academaidd 2014/15 i 3,303 yn 2015/16. I gynnal y twf hwn, mae Sefydliad Confucius yn ariannu 13 o Ystafelloedd Dosbarth Confucius. Ysgolion yw'r rhain sy'n ymrwymedig i ddull mwy dwys o addysgu iaith a diwylliant Tsieina. Mae gan bob Ystafell Ddosbarth Confucius ysgolion bwydo ac mae'n gweithredu fel canolfan ar gyfer ysgolion eraill yn eu hardal, gan sicrhau dilyniant wrth ddysgu Mandarin. Ar hyn o bryd, mae Sefydliad Confucius Caerdydd yn datblygu ei strategaeth tair blynedd sy'n debygol o gynnwys ehangu nifer yr Ystafelloedd Dosbarth Confucius yng Nghymru ymhellach.

## Beth yw ein camau gweithredu allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf?

Hyd yma, rydym wedi canolbwyntio ar godi proffil addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 ac uwch. Yn ogystal â pharhau â'r ymdrechion hyn a'u hatgyfnerthu, dros y 12 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio mwy ar archwilio, drwy gyfrwng cynlluniau peilot a gwaith clwstwr, sut y gallwn gyflawni 'dwyieithog a mwy' a chynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar ôl Cyfnod Allweddol 4, ac o UG i Safon Uwch. Bydd hyn yn cynnwys meithrin gwell ymwybyddiaeth o fanteision dysgu ieithoedd ychwanegol a sut y gallant arwain at gyfleoedd mwy amrywiol.

Bydd Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang yn defnyddio adroddiad Estyn ar addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern, *Ieithoedd Tramor Modern*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, fel rhan o'i broses fonitro i nodi cynnydd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae cynllun Dyfodol Byd-eang yn amlinellu tri phrif nod y gellir eu rhannu'n dri amcan eang, sef:

- cynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd
- cynyddu a gwella'r cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon ieithoedd
- gwella cyrhaeddiad.

Dros y 12 mis nesaf, er mwyn datblygu'r amcanion a nodwyd yn y cynllun a mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad Estyn ar ieithoedd tramor modern:

- Bydd y consortia addysg rhanbarthol yn darparu tystiolaeth o'u gwaith gydag ysgolion uwchradd i'r grŵp llywio bob chwarter. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys ffocws ar ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn deall effaith prosiect Dyfodol Byd-eang.

- Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i athrawon ieithoedd tramor modern drwy ganolfannau rhagoriaeth ysgolion. (Mae hyn yn mynd i'r afael â'r argymhellion i athrawon ac arweinwyr ysgol yn yr adroddiad ar adolygiad pwnc Estyn *Ieithoedd Tramor Modern*).

- Byddwn yn cysylltu cynllun Erasmus+ â Dyfodol Byd-eang er mwyn datblygu cais Erasmus+ ar gyfer Cymru gyfan. Bydd hyn yn cefnogi'r uchelgeisiau ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghymru fel y'u nodwyd yn *Dyfodol byd-eang*.

- Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ar bob lefel o bwysigrwydd ieithoedd a'r cyfleoedd gyrfa a allai fod ar gael iddynt os byddant yn penderfynu parhau i ddysgu iaith.

- Drwy Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang, byddwn yn datblygu cynlluniau peilot ar gyfer dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddwn hefyd yn dadansoddi pa fentrau sy'n cynnig modelau llwyddiannus a allai ganiatáu i ieithoedd tramor modern gael eu cyflwyno i'r cwricwlwm cynradd yn unol â Maes Dysgu a Phrofiad Dyfodol Llwyddiannus ar gyfer Iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

- Byddwn yn gweithio gyda'r Sefydliadau Eidaleg, Sbaeneg ac Almaeneg i'w galluogi i sefydlu presenoldeb ffisegol yng Nghymru, a fydd yn ei gwneud hi'n haws rhannu adnoddau a chyfathrebu'n well.

- Byddwn yn defnyddio'r model o'r cynllun peilot llwyddiannus ar gyfer mentora myfyrwyr ieithoedd tramor modern i ehangu'r cymorth i grwpiau eraill o ddysgwyr, gan gynnwys cynllun tiwtora yn 2017 i gefnogi dysgu ieithoedd ar lefel UG.

## Effaith a chwmpas y gweithgareddau

Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern wedi cynyddu o 28 i 44 eleni. Dros hanner yr ysgolion a gymerodd ran wedi nodi cynnydd yn y niferoedd ar gyfer dosbarthiadau TGAU.

Ffigurau ar gyfer y rheini sy'n dysgu Mandarin yng Nghymru wedi cynyddu o 1,370 yn 2014/15 i 3,303 yn 2015/16.

Digwyddiadau a gweithdai iaith ar draws Cymru wedi cael ymateb ffafriol gyda'r lefelau presenoldeb yn amrywio o 69 y cant i 86 y cant, sy'n dangos cyfranogiad cadarnhaol ar y cyfan.

Y ddarpariaeth o wersi Eidaleg gan Swyddfa Is-gennad yr Eidal wedi'i hymestyn a byddant ar gael i 12 ysgol ar draws De-ddwyrain a Canol De Cymru yn 2016/17.

Prosiect Erasmus+ yn ariannu 91 ymweliad astudio i wledydd Ewropeaidd ar gyfer athrawon o 21 ysgol ar draws De Cymru.

Cynnydd o 188 y cant yn nifer y disgyblion ar draws Cymru a hyfforddwyd drwy ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith, a ddarparwyd gan Llwybrau at Ieithoedd Cymru a gyda chefnogaeth y sefydliadau iaith, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Adnoddau dysgu ieithoedd a ddatblygwyd ar gyfer Ewros 2016 wedi bod yn ddefnyddiol i ysgolion, gyda dros 17,000 o ymweliadau â Hwb hyd yma.

# Atodiad

I gefnogi amcanion strategol y cynllun, mae pob consortiwm wedi mynd ati dros y 12 mis diwethaf i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ieithoedd tramor modern yng Nghymru.

## EAS

(Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Torfaen)

- Mae Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith wedi bod wrthi'n cynnal Clwb Ffrangeg yn yr ysgol arweiniol, Ysgol Gyfun y Coed Duon, ac wedi bod yn cynllunio ac yn cynnal diwrnod pontio Blwyddyn 6 hefyd. Aeth Llysgenhadon Iaith o Flynyddoedd 8 a 9 ati i addysgu caneuon a phatrymau ffonig, dangos sut i goginio crêpe a chyflwyno lliwiau. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan ddisgyblion a chreodd y broses addysgu gan gyfoedion gryn argraff ar athrawon Blwyddyn 6.

- Cynhaliodd Ysgol Gyfun Trefynwy ac Ysgol Gyfun Caerllion wedi cynnal digwyddiadau STEM/ieithoedd tramor modern. Yn ôl y gwerthusiadau a gwblhawyd gan ddisgyblion ar ôl y digwyddiad, cafodd y prosiect effaith sylweddol ar ddisgyblion a oedd yn dewis astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4. O'r 95 o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Trefynwy a gymerodd ran yn y digwyddiad, mae 70 y cant wedi dewis astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Nododd un disgybl: “Wnes i erioed feddwl am roi ieithoedd a gwyddorau gyda'i gilydd cyn heddiw”. Rhoddwyd sgyrsiau am yrfaoedd i ddisgyblion Blynyddoedd 8 a 9 mewn 12 o ysgolion EAS hefyd. O'r chwe ysgol a roddodd sgyrsiau i ddisgyblion Blwyddyn 9, mae pump wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sydd wedi dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU.

- Cafodd dros 78 y cant o ysgolion y rhanbarth eu cynrychioli mewn gweithdai datblygiad proffesiynol parhaus a digwyddiadau rhwydweithio, gyda bron pob un yn nodi bod y digwyddiadau yn 'dda' neu'n well. Cafodd pob un o'r ysgolion hyn eu cynrychioli hefyd yn y digwyddiadau canlynol – lansiad rhwydwaith Dyfodol Byd-eang yn Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd, tri chyfarfod 'teachmeet' a thri gweithdy DPP.

- Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, sy'n ysgol arweiniol, wedi treialu prosiect pontio aml-llythrennedd sy'n cynnwys ei hysgolion bwydo a disgyblion mwy abl a thalentog. Mae disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cael prynhawn aml-llythrennedd o wersi pontio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni unwaith y tymor ac yn derbyn sesiynau wythnosol ar wahân gan athro dynodedig. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae'r disgyblion wedi datblygu sgiliau aml-llythrennedd ardderchog ac, yn

ôl adroddiad diweddar gan ESTYN, mae'r sesiynau'n 'arloesol' ac wedi helpu i 'ddatblygu sgiliau llythrennedd ehangach disgyblion'. Mae sesiynau llais y disgybl hefyd wedi dangos bod y mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn mwynhau'r sesiynau a bod y gwaith wedi bod yn her newydd iddynt.

- Mae arolygon ysgol wedi dangos bod cyflwyno dysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth ieithoedd tramor modern wedi cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar gymhelliant. Mae ysgolion arweiniol wedi llwyddo i integreiddio llythrennedd digidol yn eu cynlluniau gwaith, ac maent yn defnyddio gweithgareddau digidol poblogaidd i brofi geirfa, codau QR (codau bar Ymateb Cyflym) ar gyfer rhoi adborth ar waith a'i gydgrynhoi a helfeydd trysor codau QR. Mae'r effaith gyffredinol yn cael ei monitro, gydag adborth yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan ddisgyblion er mwyn asesu pa mor llwyddiannus fu'r fenter o ran cymell disgyblion, ennyn mwy o ddiddordeb a chodi proffil ieithoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau EAS, cysylltwch â Sioned Harold: Sioned.Harold@sewaleseas.org.uk

## ERW

(Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin)

- Cynhaliodd Ysgol Pontyberem weithdy rapio gyda'r bardd amlieithog Aneurin Karadog er mwyn lansio adnoddau'r Ewros 2016 a chafodd y digwyddiad ei ffilmio gan S4C. Yn ôl y consortiwm, roedd y disgyblion wrth eu bodd gyda natur ryngweithiol y gweithdy a theimlwyd ei fod yn werthfawr o ran yr hyn y gwnaethant ei ddysgu yn ystod y sesiwn dwy awr.

- Yn dilyn y digwyddiad Disgyblion sy'n Llysgenhadon Iaith, mae disgyblion ERW wedi defnyddio eu sgiliau arwain newydd i drefnu clybiau iaith, clybiau ffilm, arddangosfeydd, gwasanaethau a chyflwyniadau mewn nosweithiau agored ac i lywodraethwyr ysgol. Mae athrawon ieithoedd tramor modern hefyd wedi nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr.

- Mae pob un o'r 64 ysgol uwchradd yn y rhanbarth wedi ymwneud â Dyfodol Byd-eang. Rhoddodd llysgenhadon busnes, chwaraeon, myfyrwyr a STEM, y Comisiwn Ewropeaidd a'r cydgysylltydd ieithoedd tramor modern rhanbarthol sgyrsiau am yrfaoedd mewn 55 o ysgolion ERW. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y sgyrsiau hyn ac, o ganlyniad uniongyrchol iddynt, nododd un ysgol yn y rhanbarth lle nad oedd unrhyw ddosbarthiadau ieithoedd tramor modern wedi'u cynnal yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2015, fod 33 o ddisgyblion wedi dewis astudio TGAU Ffrangeg o fis Medi 2016.

- Cafodd 86 y cant o ysgolion y rhanbarth eu cynrychioli mewn digwyddiadau rhwydweithio a gweithdai DPP ar gyfer penaethiaid adran ac athrawon ieithoedd tramor modern, gan roi cymorth ar gyfer Dysgu Digidol a'r cymhwyster TGAU newydd. Rhoddodd athrawon sylwadau cadarnhaol ar fanteision y cymorth diweddar ym maes ieithoedd tramor modern, tra bod y cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arfer gorau wedi helpu i wella hyder athrawon o ran hyrwyddo'r pwnc ymhlith disgyblion a gwella eu cyrhaeddiad.

- Mae gan y rhwydwaith ieithoedd tramor modern digidol 150 o aelodau a chaiff ei ddefnyddio'n ddyddiol i rannu adnoddau a chynnal trafodaethau. Cadarnhaodd y consortiwm fod athrawon yn nodi cynnydd nid yn unig o ran arbenigedd ond hefyd o ran morâl o ganlyniad i'r cymorth sydd ar gael.

- Cyflwynwyd pecyn hyfforddiant ieithoedd tramor modern i glwstwr cyfan o ysgolion cynradd a chaiff ei gynnig i glystyrau eraill o ysgolion cynradd yn y rhanbarth y flwyddyn nesaf. Mae'r holl adnoddau ar gael ar Hwb ac wedi cael eu rhannu â'r consortia eraill.

- Aeth 33 o ysgolion i Ddiwrnod Digidol ieithoedd tramor modern y rhanbarth, digwyddiad a ganolbwyntiodd ar ddefnyddio technolegau newydd i wella cymhwysedd llafar ac ar gyfer asesu ffurfiannol. Trefnwyd bod ysgolion yn ymweld ag ysgolion eraill i weld a rhannu arfer da.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau ERW, cysylltwch ag Anna Vivian Jones: anna.vivianjones@erw.org.uk

## Consortiwm Canolbarth y De

(Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf)

- Defnyddiodd yr Ysgol Gyfun Bryn Hafren adnoddau Ewros 2016 yn ystod gwers bêl-droed ryngweithiol a llawn hwyl yn Ffrangeg a Sbaeneg. Cymerodd y disgyblion ran lawn yn y sesiwn a dangosodd gwerthusiad fod llawer o ddisgyblion o'r farn bod eu hiaith a'u dealltwriaeth o'r digwyddiad wedi gwella. Dywedodd un disgybl o Ysgol Gymunedol Sirol y Porth fod yr adnoddau'n rhagorol o ran ennyn diddordeb bechgyn, yn enwedig ym Mlwyddyn 9. Yn ogystal, defnyddiodd athro o Ysgol Uwchradd Glyn Derw yr adnoddau i ennyn diddordeb disgyblion a oedd yn ei chael hi'n anodd dysgu ieithoedd, a dywedodd fod y disgyblion hynny o'r farn bod y dosbarthiadau lle defnyddiwyd yr adnoddau yn fwy cyffrous.

- Mae llysgenhadon iaith a STEM wedi cynnal sgyrsiau am yrfaoedd mewn 64 y cant o ysgolion. Mae'r sesiynau hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr ysgolion yn y rhanbarth, gydag 87 y cant o

ddisgyblion yn nodi eu bod yn ystyried astudio iaith ar lefel TGAU o gymharu â dim ond 22 y cant o ddisgyblion a nododd eu bod yn ystyried gwneud hynny mewn arolwg a gynhaliwyd cyn y digwyddiad. Mae'r sesiynau hefyd wedi arwain at gynnal dau ddosbarth ieithoedd tramor modern TGAU newydd ar gyfer carfan 2016 ar ôl tair blynedd o ddiffyg diddordeb yng Nghyfnod Allweddol 4.

- Cynhaliodd y consortiwm 12 o weithdai ysgol i ysgol a thri chyfarfod rhanbarthol sydd wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ym Mlwyddyn 9 ar y cyd â STEM a'r British Council, gan ddefnyddio technolegau digidol yn yr ystafell ddosbarth ieithoedd tramor modern, amlieithrwydd ac arweinyddiaeth effeithiol mewn adrannau ieithoedd tramor modern. Yn y rhanbarth, gwnaeth 86 y cant o ysgolion uwchradd gymryd rhan mewn digwyddiad neu weithdy ieithoedd tramor modern yn 2015/16. O'r rheini a gymerodd ran, nododd 90 y cant ohonynt ar gyfartaledd fod y digwyddiadau yn 'ardderchog' a'u bod wedi effeithio ar eu haddysgu a'u dysgu. Y gweithdai a welodd y nifer fwyaf o gyfranogwyr ac a ystyriwyd fel y rhai mwyaf defnyddiol oedd y rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwella sgiliau athrawon er mwyn eu paratoi ar gyfer yr arholiadau TGAU newydd.

- Cynhaliwyd digwyddiad Ennyn Diddordeb Disgyblion yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Aeth 15 o ysgolion i'r digwyddiad gyda 181 o ddisgyblion. Ymhlith y sefydliadau a gymerodd ran ac a arweiniodd weithdai roedd llysgenhadon STEM, ysgolion arweiniol Consortiwm Canolbarth y De, y British Council, Prifysgol Caerdydd, Llwybrau at Ieithoedd Cymru, Alliance Français, Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen a Sefydliad Goethe. O ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad hwn, mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf wedi mynegi diddordeb mewn derbyn gwersi Eidaleg drwy'r Sefydliad Eidaleg.

- Sefydlodd y consortiwm Grŵp Datblygu Adnoddau ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd gydag athrawon yn cael eu rhyddhau o ysgolion er mwyn mynychu'r Grŵp. Ers y digwyddiad hwn, mae 36 o athrawon ieithoedd tramor modern wedi cofrestru â thudalen Cymuned Dysgu'r consortiwm ar gyfer ieithoedd tramor modern, gan ddod â'r nifer sydd wedi cofrestru i 57 ar gyfer Canolbarth y De.

- Mae prosiect addysgu ieithoedd tramor modern i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2, a arweinir gan gynghrair ysgolion Consortiwm Canolbarth y De ac a gefnogir gan y Brifysgol Agored, wedi'i dreialu. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Ysgol y Pant gyda'i chlwstwr o naw ysgol gynradd ac Ysgol Gyfun Treorci gyda'i chlwstwr o saith ysgol gynradd. Nod y prosiect yw datblygu'r broses o addysgu ieithoedd tramor modern yn ystod y ddwy flynedd olaf yn

yr ysgol gynradd gan ddefnyddio pecyn cymorth ar-lein i wella sgiliau addysgu ieithoedd tramor modern athrawon ysgol gynradd.

- Mae Ysgol Gyfun Bryn Hafren wedi creu pecyn cymorth 'Defnyddio Technoleg Ddigidol yn yr Ystafell Ddosbarth Ieithoedd Tramor Modern' ac adnoddau amlieithrwydd ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu yn y pwnc. Yn ôl arolwg mewnol, roedd 87 y cant o ddisgyblion yn fwy awyddus i ddysgu iaith pan roeddent yn defnyddio technoleg ddigidol yn yr ystafell ddosbarth gan eu bod yn teimlo ei bod yn berthnasol i fywyd bob dydd ac yn caniatáu iddynt weithio ar gyflymder sy'n gysurus iddynt. Mae'r pecyn cymorth ar gael ar dudalennau cymunedol Canolbarth y De ar Hwb ar gyfer athrawon ledled Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau Consortiwm Canolbarth y De, cysylltwch ag Amy Walters-Bresner: AWalters.bhcs@valelearning.com

## GwE

(Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir Fôn, Sir y Fflint a Wrecsam)

- Cynhaliwyd cynhadledd ym mis Chwefror 2016 ar gyfer arweinwyr ysgol ac athrawon ieithoedd i godi ymwybyddiaeth o agenda Dyfodol Byd-eang a dangos pwysigrwydd ieithoedd fel sgil am oes. Atgyfnerthwyd y neges hon gan siaradwyr gwadd a thrwy gyfrwng gweithdai, a rhoddwyd cymorth i athrawon fynd i'r afael â manylebau arholiadau newydd a datblygu'r broses o addysgu ieithoedd tramor modern ar lefel gynradd. Yn ôl y cynadleddwyr, roedd pob un o'r sesiynau gweithdy a gynhaliwyd naill ai'n 'dda' neu'n 'ardderchog'.

- Sefydlwyd prosiect busnes/STEM ac ieithoedd tramor modern. Mae pedair ysgol hwb sef Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Aberconwy, Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Morgan Llwyd, yn cymryd rhan yn y prosiect, gyda phob ysgol yn gweithredu ar ran grŵp o ysgolion yn y rhanbarth. Mae gan bob ysgol athro sydd wedi'i enwebu i gydgysylltu â phrosiect Gweld Gwyddoniaeth a busnesau lleol sy'n defnyddio ieithoedd er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng diwydiant ac ysgolion.

- Cymerodd 69 y cant o ysgolion y rhanbarth ran yn y gweithdai DPP a'r digwyddiadau rhwydweithio. Nododd yr athrawon a gymerodd ran fod ganddynt fwy o hyder o ran cyflwyno'r fanyleb TGAU newydd a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithio. Yn ogystal, mae Ysgol Uwchradd Eirias wedi darparu gweithdai cydweithredol ysgol i ysgol ar gyfer ysgolion yn y consortiwm. Caiff pob gweithdy ei deilwra i fodloni gofynion yr ysgol ac mae cyfranogwyr eisoes wedi nodi gwelliant o ran cymhelliant a hyder.

- Mae'r 'Rhwydwaith Ieithoedd Tramor Modern' digidol wedi'i sefydlu a gall pob ysgol gael mynediad at y wefan; bydd athrawon yn gallu rhannu adnoddau, trafod unrhyw bryderon a rhannu arbenigedd, a fydd yn arwain at gynnydd yn y defnydd a wneir o wefan Hwb.

- Mae'r consortiwm wedi gweithio gyda Sefydliad Goethe i sefydlu dwy ysgol hwb uwchradd i hyrwyddo addysgu Almaeneg yn yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Mae Sefydliad Goethe yn darparu hyfforddiant ac adnoddau yn barhaus er mwyn galluogi ysgolion hwb i atgyfnerthu'r broses bontio ar gyfer eu hysgolion eu hunain cyn mynd ati i helpu ysgolion uwchradd eraill i ddyblygu'r model ieithoedd tramor modern ar gyfer ysgolion cynradd er mwyn cefnogi'r broses bontio. Mae Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen wedi cydweithio ag eraill hefyd i gynnal gweithdy ieithoedd tramor modern ar gyfer athrawon cynradd yn Llandudno.

- Rhannwyd yr holl adnoddau ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern ar lefel gynradd gydag ysgolion cynradd yn nigwyddiad Dyfodol Byd-eang ym mis Chwefror 2016. Mae'r adnoddau hyn ar gael ar Rwydwaith Ieithoedd Tramor Modern GwE er mwyn i bob ysgol gynradd gael gafael arnynt yn hawdd.

- Cafodd 78 y cant o'r ysgolion eu cynrychioli mewn gweithdai a roddodd hyfforddiant ar ddefnyddio apiau TG ar lechi i wella'r broses o addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern. Yn dilyn y sesiynau hyfforddi ar ddefnyddio llechi, mae Ysgol Uwchradd Eirias wrthi'n treialu'r defnydd o godau QR er mwyn i ddisgyblion allu derbyn adborth llafar yn ogystal ag adborth ysgrifenedig ar eu gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau GwE, cysylltwch â Gwenno Jarvis: GwennoJarvis@gwegogledd.cymru